Cyngor Tref Llandeilo Fawr

Llandeilo Fawr Town Council

Cofnodion o Bwyllgor Cyllid Cyngor Tref Llandeilo a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 13eg Medi, 2006 yn Oriel y Neuadd Ddinesig, Llandeilo am 8 .3 0pm

Presennol: Cyng Pam Steane Price, Y Maer Cyng Hugh Towns, Dirprwy Faer Cyng Richard Wallace, Cyng Ieuan Gwyn, Cyng Colin Jenkins, Cyng Roy Davies, Mr Roger Phillips Clerc y Dref, Mr Christopher Plummer, Swyddog Cyllid, Mr Des Davies, Swyddog Technegol

Ymddiheuriadau : Cyng Edward Thomas

Cof 59 / Medi / 06 Anfonebau i'w talu.

CSC (Taliadau am Oleuadau)	£ 268.97
Morgan & Morgan (Deunydd Swyddfa)	£ 100.33
Caron Promotion (Dosbarthu Taflenni)	£ 258.50
CAVS (Aelodaeth Flynyddol)	£ 30.00
Orchardweb (diweddaru gwefan)	£ 45.00
WCVA (Gweinyddiaeth Awst)	£ 34.66
WCVA (Cyflogai Awst)	£ 159.76
Regan Norris Partnership(Ffi'r Pensaer)	£ 538.11
Lyn Llewellyn(Archwiliad Mewnol)	£ 150.00
Orchardweb (adnewyddu'r gwestywr)	£ 52.86
Llogi'r Oriel yn y Neuadd Ddinesig	£ 5.00
Costau teithio'r Cyng Leadbeater	£ 18.50
Hugh Gwynne (torri porfa)	£ 740.25
Screwfix (clo digidol i'r swyddfa)	£ 47.48

Cynigiwyd y dylid talu'r eitemau hyn gan y Cyng Hugh Towns. Eiliwyd gan y Cyng Ieuan Gwyn. Roedd pawb o blaid.

Cof 60 / Medi / 06 Incwm a Dderbyniwyd (Gorffennaf ac Awst)

CSC (taliad am y llungopïwr)	£ 799.00
CSC (ARCHEBIANT)	£15428.33
LLOG – CYFRIF CYFREDOL	£ 2.35

.

.Cof 61 / Medi / 06 Mantolen y Cyfrif

Cofnodwyd a **Derbyniwyd** yr adroddiad canlynol ar gyllid y Cyngor:

LTC CYFRIF CYFREDOL (31.8.06)	£ 31,229.46
LTC CYFRIF CYNILO (27.6.06)	£ 34,637.66
LTC CYFRIF TREULIAU'R MAER (20.8.06)	£ 2101.95

Wnaeth y Swyddog Cyllid gydnabod fod y swm yn y Cyfrif Cyfredol yn rhy uchel ond o ystyried y biliau sydd i ddod i dalu am atgyweirio Neuadd y Sir, roedd yn teimlo y dylai aros fel ag y mae.

Cof 62 / Medi / 06 Materion Ariannol Eraill

1. **Archwiliad 2005-6**.
Roedd yr Archwiliwr Mewnol yn fodlon fod y ffigyrau i gyd yn gywir.

2. Archwiliadau Chwarterol – Ar gyfer Ebrill, Mai a Mehefin 2006.
Adroddodd y Cyng Pam Steane Price nad oedd yna unrhyw anghysondebau.

3. **Rhagolygon y Gyllideb am y Tair Blynedd nesaf.**
Argymhellodd y Cyng Hugh Towns y dylai'r cynnydd yn rhent Cambria o £11167 i £12563 gael ei roi i mewn i incwm y dyfodol. Argymhellodd hefyd y dylid rhoi llog banc fel dim oherwydd ni wyddit yr union swm wedi talu am y gwaith atgyweirio i Neuadd y Sir. Dylid rhoi'r £5000 sydd wrth gefn ar gyfer costau cynnal a chadw, gael ei roi yn y rhagolwg.
Mae'r swm a roddwyd i'r neilltu ar gyfer Ceramica i gael ei dynnu oddi yno.
Bydd y Cyng Pam Steane Price yn archwilio'r sefyllfa mewn perthynas â'r cynlluniau ar gyfer Gŵyl Llandeilo yn y dyfodol.
Cynigiwyd gan y Cyng Ieuan Gwyn ac eiliwyd gan y Cyng Hugh Towns y byddai'r rhodd a roddir i gefnogi'r Ŵyl Gerdd yn cynyddu o £1500 i £ 1750 ar gyfer 2007, a chan fydd Treialon Cŵn Defaid y Byd yn cael eu cynnal yn Llandeilo yn 2008, dylid rhoi swm o £1000 i un ochr. Roedd pawb o blaid.

4. I ystyried prynu Llungopïwr
Derbyniwyd y dyfynbrisau canlynol

a)	Glyn Edwards – Toshiba e-Studio	£ 1436.88
b)	Llewellyn's Copiers – Olivetti d-200	£ 1295.00
c)	Konica Minolta – Konica Bizhub 2120	£ 1127.00
d)	Pinnacle Office Equipment – Xerox C118	£ 1495.00
e)	Express Copier Service – Ricoh Aficio MP2000LN	£ 1786.00

Cynigiodd y Cyng Ieuan Gwyn y dylid derbyn dyfynbris Konica Minolta o £1127. Eiliwyd hyn gan y Cyng Hugh Towns. Roedd pawb o blaid.

Cof 63 / Medi / 06 I Ystyried rhoddion a cheisiadau am Gymorth Ariannol

1. Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Caerfyrddin 2007 – Apêl Lleol - £ 1000
   Cynigiwyd gan y Cyng Pam Steane Price ac eiliwyd gan y Cyng Richard Wallace. Roedd pawb o blaid.

2. Shelter Cymru – Angen gofyn am fantolen ar gyfer 2005-6.
3. Cymorth i Ferched Dyffryn Aman - £100
   Cynigiwyd gan y Cyng Pam Steane Price ac eiliwyd gan y Cyng Hugh Towns

4. Gofal Canser Marie Curie - £100
   Cynigiwyd gan y Cyng Hugh Towns ac eiliwyd gan y Cyng Richard Wallace.

5. Clwb Ieuenctid Arfaethedig yn Salem – Yn anffodus nid yw rheoliadau Adran 137 yn caniatáu i'r Cyngor gefnogi prosiect clodwiw hwn gan ei fod y tu allan i Dref Llandeilo.

Cof 64 / Medi / 06 Gohebiaeth yn Ymwneud â Chyllid

1. Hysbysfyrddau Cymunedol – Gan fod y Cyngor eisoes wedi buddsoddi mewn tri hysbysfwrdd, teimlwyd nad oedd angen un arall.
2. Ficer Llandeilo – rhybudd fod y borfa yn y fynwent wedi'i dorri.
   Cynigiwyd gan y Cyng Hugh Towns y dylid rhoi £1000 i'r Eglwys er mwyn helpu gyda'r gost o gynnal a chadw'r fynwent. Eiliwyd hyn gan y Cyng Pam Steane Price. Roedd pawb o blaid.
3. Hugh Williams and Son – Darparu copi wedi'i lofnodi o les Neuadd y Sir i Cambria. I'w ffeilio.

Cof 65 / Medi / 06 Unrhyw fater arall sydd oherwydd amgylchiadau arbennig ym marn y Cadeirydd yn haeddu sylw brys, yn unol ag adran 100B(4)(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Cofrestr Asedau

Er mwyn diweddaru'r manylion presennol nodwyd fod yr eitemau canlynol wedi'u rhoi yn ystod 2005-6

1. Cyflwynwyd Un Medal i Gyn Feiri ac un Plac Arfbais y Dref i'r Maer oedd yn gadael a'i gymar ym mis Mai 2005.
2. Rhoddwyd un Broitsh y Faeres i'r Gyn Faeres ym mis Mai 2006

Bydd y rhain yn cael eu cynnwys ar y Gofrestr Asedau ar gyfer 2006-7.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.20 pm.